

**DATGANIAD I'R WASG**

**I'W RYDDHAU AR UNWAITH**

**11 MAI 2026**



Artio, Gŵyl Ffilm Cannes 2026 | Llun: CreuTech Ltd

## **Prosiect Trochi Cymreig Artio wedi'i Ddewis ar gyfer Marchnad Drochol Gŵyl Ffilm Cannes 2026**

Mae Artio, profiad trochi Cymreig arloesol, wedi'i ddewis gan Media Cymru i'w gyflwyno ym Marchnad Drochol Gŵyl Ffilm Cannes 2026, gan osod arloesedd creadigol Cymru yn gadarn ar y llwyfan byd-eang.

Wedi'i ddatblygu drwy gydweithrediad rhwng Media Cymru ac Outernet London, mae Artio yn fyth-dirwedd gerddorol ryngweithiol sy'n ail-ddychmygu chwedl Arthur drwy lens ecolegol a ffeministaidd. Gan gyfuno cerddoriaeth wreiddiol, adnabod ystumiau a delweddau trochi, mae'r profiad yn gwahodd cynulleidfaoedd i gyd-greu myth byw — wedi'i lunio mewn amser real drwy symudiad a sain.

Dan arweiniad y crëwr a'r cynhyrchydd Ashley McAvoy a'r cyfarwyddwr creadigol Klaire Tanner o CreuTech Ltd, mae'r prosiect yn dod â thîm amlddisgyblaethol o artistiaid a thechnolegwyr ynghyd. Ymhlith y cyfranwyr mae'r cantorion Alys Williams a Steve Balsamo, y dramodydd Tracy Harris, y cynhyrchydd Matt Eaton, a'r bardd Owain Rhys, enillydd Coron yr Eisteddfod.

Bu Media Cymru, sy'n cefnogi ymchwil, datblygu ac arloesi Outernet ar draws y sectorau ffilm, teledu, gemau a chyfryngau trochi, yn partneru ag Outernet London yn 2025 i ariannu prosiectau creadigol beiddgar ar gyfer un o amgylcheddau cyfryngau amser real mwyaf datblygedig y byd. Dewiswyd Artio fel un o ddau brosiect a gynlluniwyd i wthio ffiniau creadigol a thechnegol wrth arddangos dyfodol adrodd straeon Cymreig.

## **Marchnad Drochol Cannes 2026**

Mae'r Farchnad Drochol — a lansiwyd yn 2025 — yn blatfform rhyngwladol penodol ar gyfer prosiectau sy'n archwilio adrodd straeon gofodol, gan gynnwys XR, AI, mapio fideo a sain drochol. Mae'n cysylltu cynhyrchwyr, dosbarthwyr ac arddangoswyr sy'n chwilio am ffurfiau newydd ar brofiadau lleoliad-benodol y tu hwnt i sinema draddodiadol.

Bydd Artio yn cael ei gyflwyno fel rhan o'r rhaglen swyddogol:

- Dyddiad: 15 Mai 2026
- Amser: 11:20 – 12:20
- Lleoliad: Gwesty Carlton Cannes, La Croisette

## **Llwyfan ar gyfer Dyfodol Adrodd Straeon Cymreig**

Mae'r dewis yn nodi carreg filltir bwysig i Artio gan symud ymlaen o ymchwilio a datblygu i gynnal trafodaethau rhyngwladol ynghylch arddangos a dosbarthu. Mae'r prosiect yn dangos sut y gall adrodd straeon drwy gerddoriaeth, cyfryngau cynhyrchiol a rhyngweithio cynulleidfa gyfuno i greu profiadau trochi ar gyfer lleoliadau ledled y byd.

Yn dilyn y cyflwyniad yn Cannes, bydd y tîm yn symud i'r cam nesaf — ehangu Artio fel profiad trochi teithiol a gosod y sylfeini ar gyfer cyfres ehangach o weithiau wedi'u gwreiddio mewn myth, ecoleg a lle.

## **Nodiadau i Olygyddion**

- *Datblygwyd Artio drwy bartneriaeth Media Cymru ac Outernet, sy'n cefnogi arloesedd creadigol Cymreig mewn cyfryngau trochi.*
- *Nod Media Cymru yw gosod Prifddinas-Ranbarth Caerdydd fel canolfan fyd-eang ar gyfer arloesedd yn y cyfryngau, gyda ffocws ar dwf economaidd teg a gwyrdd.*
- *Mae rhaglen £54m Media Cymru yn rhan o Gronfa flaenllaw Strength in Places gan UK Research and Innovation (UKRI).*
- *Mae Marchnad Drochol Cannes yn rhaglen B2B sy'n canolbwyntio ar gyflymu dosbarthiad profiadau trochi a lleoliad-benodol.*



WE ARE ATTENDING



MARCHÉ DU FILM

12-20 MAY 2026

## IMAGES



Tîm Artio (o'r chwith i'r dde): Alys Williams, Klaire Tanner, Ashley McAvoy, Matt Eaton, Steve Balsamo, Tracy Harris | Llun: CreuTech Ltd





Delweddau o Artio yn Outernet, Llundain (2026) | Llundain: Neil R Thomson